

Hysbysiad Statudol Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ar ôl ymgynghori â'r unigolion hynny fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol, yn cynnig gwneud y newidiadau rhagnodedig fel a ganlyn:

Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i ysgol Gymraeg bwrpasol newydd i'w lleoli ar safle gwag hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn (Cwmcarn NP11 7NG) gyda dyddiad meddiannu disgwyliedig ym mis Medi 2023

Cynhelir yr ysgol ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a'r ymateb llawn gan Estyn, ar gael yn: www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb

Y bwriad yw gweithredu'r cynnig gyda dyddiad dod i rym tua mis Medi 2023.

Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 207 ynghyd â 31 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin, capasiti'r ysgol ar hyn o bryd yw 251 o ddisgyblion.

Y nifer derbyn ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn y flwyddyn ysgol gyntaf pan weithredir y cynigion fydd 45 ar gyfer pob grŵp blwyddyn gan gynnwys y dosbarth meithrin. Fodd bynnag, bydd hyn yn cynyddu fesul tipyn, sef 5 y flwyddyn, nes cyrraedd y nifer derbyn, sef 60 o ddisgyblion.

Y capasiti arfaethedig ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 365 yn y flwyddyn gyntaf, a fydd yn cynyddu fesul tipyn, sef 5 ym mhob grŵp blwyddyn, nes cyrraedd capasiti llawn, sef 420 o ddisgyblion, ynghyd â 60 o leoedd yn y dosbarth meithrin ac 16 o leoedd yn y ganolfan adnoddau arbennig.

Cynigir cadw dalgylch Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon fel y mae, fel yr amlinellir yn y Ddogfen Ymgynghori (tudalen 14).

Nid oes newid i bolisi'r Cyngor o ran cludiant ysgol, sef darparu cludiant am ddim i'r ysgol 'berthnasol' (h.y. yn y dalgylch neu'r ysgol agosaf) os yw'r pellter yn fwy nag 1.5 milltir rhwng y cartref a'r ysgol.

Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

Cyfnod gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, hynny yw, rhwng dydd Llun 11 Ionawr 2021 a dydd Sul 7 Chwefror 2021, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r cynigydd.

Dylai gwrthwynebiadau trwy e-bost gael eu hanfon i: YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk
Dylai gwrthwynebiadau ysgrifenedig gael eu hanfon i: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Ar gyfer sylw Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Cyfadrn Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (a heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu – ynghyd â'i sylwadau ar bob un – pan fydd yn rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid am y penderfyniad ar y cynnig.

Richard Edmunds

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol



Ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Dyddiad: 11 Ionawr 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hyn yn rhan o'r hysbysiad, ond diben hyn yw egluro'r ystyr gyffredinol)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnig adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon (Gwyddon Road, Abercarn, Casnewydd NP11 5GX), o 31 Awst 2023, i safle arfaethedig newydd.

O 1 Medi 2023, bydd disgyblion yn yr ysgol bresennol yn trosglwyddo i safle newydd yr ysgol (Chapel Farm, Cwmcarn, Casnewydd NP11 7NG).